Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)
Adroddiad Blynyddol 2021/22

Rhif cwmni: 08632556
Cyfeiriad cofrestredig:
C/O Edwards and Keeping
Unity Chambers
34 High East Street
Dorchester
Dorset
DT1 1HA

Cyfeiriad post:
PO Box 9322
Dorchester
DT1 9HW

Neges gan y Cadeirydd

Roedd 2021/22 yn flwyddyn anodd i bawb. Wrth i gymdeithas ddod i delerau â byd newydd y coronafeirws, bu'n rhaid i bob sefydliad ym mhob sector ailedrych ar eu modelau gweithredu. Doedd gwasanaethau monitro dalfeydd yn ddim gwahanol. Yn wyneb y fath gythrwfl, dangosodd cynlluniau annibynnol ymweld â dalfeydd wytnwch ac ymroddiad anhygoel, gan dynnu sylw at nifer o heriau allweddol i ddiogelu hawliau a hawlogaethau y rhai a gedwir yn y ddalfa. Ymhlith y nifer o faterion a godwyd, nodwyd y cynnydd mewn gwrandawiadau remand rhithwir sy'n cael eu cynnal yn nalfeydd yr heddlu, cael gafael ar gyfreithwyr, nodwyd materion hefyd yn ymwneud â hylendid a heriau staffio, a chafodd y cyfan eu cyfleu i sefydliadau cenedlaethol gan ICVA. Nid wyf erioed wedi bod yn fwy balch o fod yn Gadeirydd ICVA nag yn ystod y cyfnod hwn ac mae gennyf edmygedd mawr tuag at ein holl Ymwelwyr Annibynnol a ddangosodd y fath anhunanoldeb a phenderfyniad i gynnal hawliau dynol y rhai a gedwir yn y ddalfa. Bydd angen yr arweinyddiaeth hon yn 22/23 yn union fel yr oedd y llynedd. Mae'r coronafeirws yn parhau i gyflwyno heriau digynsail i bawb, ac nid yw'n glir sut y bydd amrywiolion newydd yn effeithio ar fusnes arferol. Yng nghanol ansicrwydd o'r fath, does gen i ddim amheuaeth y bydd cynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn parhau i ymateb i'r her, gan fod yn greadigol ac yn arloesol wrth barhau i fonitro llesiant y rhai a gedwir yn y ddalfa.

Y llynedd, cyhoeddodd y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol ei hadroddiad ar fonitro annhegwch o ran hil a rhyw yn nalfa'r heddlu. Roeddem yn falch iawn o gydweithio â'r

gynghrair ar y darn hynod ddefnyddiol hwn o waith ac mae ei hargymhellion wedi bod yn sail i gynllun gweithredu gwrth-hiliaeth newydd ar gyfer ICVA, ac wedi ysbrydoli ein thema genedlaethol ar gyfer 22/23, sef mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y ddalfa. Ers cyhoeddi'r adroddiad, rydym wedi cynnal ein cynhadledd genedlaethol wyneb yn wyneb gyntaf ers dechrau'r pandemig, lle roedd yr adroddiad a'n hethos gwrth-hiliaeth yn cael lle amlwg. Mae'n gwbl briodol bod ICVA yn parhau i archwilio ei arferion ei hun, a rhai ein haelodau er mwyn sicrhau bod unrhyw feysydd o anghymesuredd yn cael eu monitro, gan fynd i'r afael â nhw'n effeithiol. Mae gan ICVA waith i'w wneud yn y maes hwn, o'n rhan ni ein hunain fel sefydliad ac i gefnogi aelodau i fod yn fwy rhagweithiol yn y maes hwn. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chynlluniau a rhanddeiliaid ar weithredu argymhellion yr adroddiad a'n cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth.

Er mwyn cefnogi ymwelwyr annibynnol ac ICVA i ymdrin â'r normal newydd, arhosais yn Gadeirydd am flwyddyn arall. Yn fewnol, gwelwyd newidiadau sylweddol i ICVA dros y flwyddyn ddiwethaf. Fel tîm, rydym wedi ailwampio'r hyn y mae aelodaeth ICVA yn ei gynnig, wedi darparu adnoddau newydd a chyffrous ar gyfer cynlluniau, wedi newid deddfwriaeth i amddiffyn urddas y rhai a gedwir yn y ddalfa ac wedi goruchwylio gwaith monitro yn ystod y pandemig. Yn ystod y cyfnod hwn, ymddiswyddodd Katie Kempen fel Prif Weithredwr ac ymgymerodd Sherry Ralph, Prif Swyddog Gweithredu ICVA, â swydd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro. Hoffwn ddiolch i Sherry am ei harweinyddiaeth, gan ein llywio drwy ansicrwydd y pandemig a gweithio'n ddiflino gyda rheolwyr cynllun yr ymwelwyr annibynnol a'u cefnogi yn eu swyddi a'u cyfrifoldebau. Gan gefnogi Sherry fel Prif Swyddog Gweithredu dros dro, fe wnaethom groesawu Stacey Evans sydd ar secondiad o Swyddfa Heddlu a Throseddu De Cymru. Bu ymrwymiad diflino Stacey i ddiogelu urddas a lles y rhai a gedwir yn y ddalfa yn amhrisiadwy i'n sefydliad a diolch iddi am ei gwaith gwych yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr hydref, dechreuodd Ashley Bertie ar ei swydd fel ein Prif Weithredwr. Gan weithio'n agos â Sherry a'r Bwrdd, mae Ashley wedi creu cynllun busnes uchelgeisiol a chyffrous a fydd yn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn flaengar wrth ddiogelu'r gwaith o fonitro'r ddalfa yn y DU.

Gan edrych ymlaen at 2022/23, bydd ICVA yn gweld cyfnod o newid gan y byddwn yn croesawu cyfarwyddwyr newydd i'n Bwrdd. Ar ôl naw mlynedd fel Cadeirydd bwrdd ICVA, byddaf yn rhoi'r gorau i'm swydd ym mis Gorffennaf ac yn helpu i oruchwylio'r broses o recriwtio Cadeirydd newydd. Mae arwain ICVA a gweithio gyda grŵp mor angerddol o aelodau, swyddogion, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Bwrdd ICVA wedi bod yn anrhydedd o'r mwyaf, a dim ond drwy ymrwymiad ac effeithiolrwydd cynlluniau a gwirfoddolwyr y gwneir hyn yn bosibl. Ni ellir gwadu bod ICVA yn parhau i ysbrydoli dadl genedlaethol ar bolisi dalfeydd a rhoi newid go-iawn ar waith. Y rheswm am hyn yw oherwydd ymroddiad a phenderfyniad ein cynlluniau sy'n ddiflino o ran sicrhau bod pawb sy'n cael eu cadw yn nalfeydd yr heddlu yn cael eu trin gydag urddas. Mae rheolwyr a gwirfoddolwyr cynlluniau ymwelwyr annibynnol yn bobl wirioneddol eithriadol ac rydym wedi bod yn ffodus i weithio i'ch cynrychioli.

Martyn Underhill, Cadeirydd
Gorffennaf 2022

Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd
Gwaith y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) yw arwain, cefnogi a chynrychioli cynlluniau lleol ar gyfer ymweliadau annibynnol â dalfeydd.

Gweledigaeth
Gweledigaeth ICVA yw bod y rhai a gedwir yn y ddalfa yn cael eu trin yn deg, gydag urddas, ac nad ydynt yn cael eu cam-drin.

Cenhadaeth
Mae ICVA yn arwain, yn cefnogi ac yn cynrychioli cynlluniau ymweliadau annibynnol â dalfeydd i fod yn effeithiol, i sicrhau lles y rhai a gedwir yn y ddalfa, amddiffyn y bregus a goruchwylio dalfeydd yr heddlu.

Blaenoriaethau ICVA yn 2021/22

Datblygwyd y cynllun busnes ar gyfer 21/22 i roi'r sefydliad mewn sefyllfa dda i weithredu o fewn cyd-destun digynsail Covid -19, gan sefydlu, hefyd, ffyrdd newydd o weithredu a fyddai'n caniatáu i'r sefydliad bontio'n ddi-dor i fyd ôl-bandemig. Blaenoriaethau ICVA yn ystod y cyfnod hwn oedd:

Arwain, Cefnogi a Chynrychioli – adfer a dysgu wedi COVID 19
Parhaodd ICVA i arwain, cefnogi a chynrychioli cynlluniau o ran COVID19 - roedd hyn yn cynnwys:

- Darparu cyngor ac arweiniad i gynlluniau ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa.
- Sicrhau a chyfleu statws ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa fel gweithiwr allweddol.
- Ateb ymholiadau am y cynllun a sefydlu mesurau cymorth i gymheiriaid.
- Cynnal cyfarfodydd cymorth ychwanegol ar gyfer cynlluniau a rhwydwaith TACT, sy'n ymweld â chanolfannau cadw terfysgwyr.
- Cynrychioli ymwelwyr annibynnol â dalfeydd mewn cyfarfodydd rheolaidd, cenedlaethol â'r Swyddfa Gartref, NPCC, y GIG, Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol.
- Gofyn am adborth yn rheolaidd gan gynlluniau a rhannu a chyhoeddi crynodebau ohonynt.

Arwain Cynlluniau ICV – Cwblhau Cynllun Peilot Sylwedyddion Annibynnol Dalfeydd (ICOP)

Yn dilyn Cynllun Peilot Sylwedyddion Annibynnol Dalfeydd (ICOP) i adolygu a chryfhau methodoleg ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn 21/22, ymgysylltodd ICVA â'r Swyddfa

Gartref i ledaenu arferion gorau a gasglwyd o'r peilot. Yn 21/22, roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys:

- Cyfres o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid ar fethodoleg ICOP.
- Cynnal gwerthusiad o'r ymarferion hyn a chyflwyno'r canlyniadau i'r Swyddfa Gartref i'w hystyried ymhellach.

Arwain – Fframwaith Sicrhau Ansawdd 2 (QAF 2)

Parhaodd ICVA i adolygu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn 21/22 i weld a fyddai'r capasiti gan y cynlluniau i'w gyflawni. Mewn ymgynghoriad â rheolwyr y cynlluniau, penderfynwyd nad oedd y capasiti gan y cynlluniau i gyflawni gofynion y Fframwaith ac yn y pen draw penderfynwyd cefnogi cynlluniau i fonitro.

Arwain – Ymateb i adolygiad y Gymdeithas Cyfiawnder Troseddol (CJA) o hil a rhyw ym maes ymweliadau annibynnol â'r ddalfa

Cymerodd ICVA ran ragweithiol yn fewnol ac yn allanol gyda nifer o bartneriaid ar yr argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac adolygu ei brosesau a'i weithdrefnau gyda ffocws penodol ar wrth-hiliaeth. Roedd y camau hyn yn cynnwys:

- Cynnal cynhadledd i reolwyr cynlluniau ar lansio'r adroddiad.
- Creu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth.
- Hyrwyddo canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad gydag aelodau a phartneriaid ICVA.

Cefnogi – adfer wedi COVID-19

Mae ICVA wedi cefnogi cynlluniau ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa wrth iddynt adfer wedi COVID-19, gan ddatblygu adnoddau yn ôl y galw, a rhannu'r hyn a ddysgwyd o arfer da.

Cefnogi – adnoddau yn syth i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae COVID-19 wedi golygu bod cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn defnyddio llwyfannau ar-lein i gynnal cyfarfodydd, cynadleddau, a hyfforddiant. Mae ICVA wedi datblygu adnoddau 'yn syth i Ymwelwyr Annibynnol' drwy'r cyfnod hwn gan gynnwys cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol, sesiynau briffio a phecynnau hyfforddi ar YouTube.

Cynrychioli – gwybodaeth i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Etholwyd carfan o Gomisiynwyr newydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2021. Darparodd ICVA wybodaeth a chefnogaeth sydd eu hangen ar y Comisiynwyr newydd a Chomisiynwyr presennol i gyflawni eu dyletswydd statudol o redeg cynllun ymweliadau annibynnol â dalfeydd.

Cynrychioli – rhannu canfyddiadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd â chyrff cenedlaethol

Mae ymwelwyr annibynnol yn ymweld â'r ddalfa bob wythnos ac yn rhoi golwg gyfoes ar amodau dalfeydd yr heddlu. Mae eu hymweliadau a'u hadroddiadau yn eithriadol o werthfawr i gyrff cenedlaethol sydd am ddeall ac ymateb i heriau dalfeydd. Bydd ICVA yn cynrychioli canfyddiadau'r ymwelwyr annibynnol i randdeiliaid allweddol gan gynnwys y Swyddfa Gartref, Bwrdd Strategaeth yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE), y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM), yr Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol, y Coleg Plismona, a'r Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa.

Blaenoriaethau mewnol

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr ICVA yn gwneud gwaith rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben, gan sicrhau bod y sefydliad yn bodloni gofynion cyfreithiol, cyllidol, a strategol.

Busnes fel Arfer / gwasanaethau parhaus

Mae ICVA yn darparu nifer o wasanaethau y parhaodd i'w darparu yn ystod 2021/22. Roedd hyn yn cynnwys:

- Anfon cylchlythyr wythnosol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynlluniau am unrhyw newidiadau cenedlaethol, gwersi a ddysgwyd, arfer gorau a chanllawiau sydd ar gael iddynt.
- Arwain rhwydwaith o gynlluniau sy'n ymweld â chanolfannau cadw terfysgwyr er mwyn datrys heriau, canfod trafferthion ac adrodd i Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth.
- Cynrychioli ymwelwyr annibynnol â dalfeydd o fewn Fforwm Cenedlaethol y Dalfeydd ac o fewn grwpiau rhanddeiliaid eraill.
- Ymgysylltu ag academyddion i gefnogi gwaith ar wella dalfeydd yr heddlu.

Mae COVID-19 wedi effeithio ar rywfaint o fusnes arferol ICVA fel gweithgareddau arferol:

- Cafodd cynhadledd rheolwyr cynlluniau ICVA ei chynnal ar-lein.
- Cyflwynodd ICVA sesiynau hyfforddi ar-lein ar gyfer ymwelwyr annibynnol yn hytrach na Chynhadledd Genedlaethol.
- Nid oedd modd i ICVA fynd i gynadleddau rhanbarthol yn ôl yr arfer. Aeth ICVA i gynadleddau ar-lein lle bo hynny'n briodol.

Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU

Mae ICVA yn aelod o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU (UKNPM). Sefydlwyd UKNPM ym mis Mawrth 2009 ar ôl i'r DU gadarnhau'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill (OPCAT) ym mis

Rhagfyr 2003. Mae'n cynnwys 21 o gyrff statudol sy'n gweithio'n annibynnol i fonitro dalfeydd, ac mae'r rhai sy'n ymdrin â dalfeydd yr heddlu yn cynnwys:

- ICVA
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban
- Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRIS)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer yr Alban
- Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth

Sefydlwyd yr NPM er mwyn sicrhau ymweliadau rheolaidd â mannau cadw er mwyn atal artaith a chamdriniaeth arall, yn unol â gofynion OPCAT. Mae OPCAT yn cydnabod bod pobl sydd mewn canolfan gadw yn arbennig o agored i niwed ac mae'n nodi bod angen i wladwriaethau sefydlu corff ar lefel genedlaethol a all gefnogi ymdrechion i atal eu camdriniaeth. Mae'n rhaid i'r NPM gael, o leiaf, y pwerau i:

- Archwilio'n rheolaidd y driniaeth a gaiff pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid ym mhob man cadw o dan awdurdodaeth a rheolaeth y DU;
- Gwneud argymhellion i awdurdodau perthnasol gyda'r nod o wella triniaeth ac amodau pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid; a
- Chyflwyno cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddrafft.

Yn ystod 2021/2022, arhosodd Prif Weithredwr/Prif Swyddog Gweithredu dros dro ICVA yn Gadeirydd y Grŵp Llywio Plismona tan fis Hydref 2020, pan gymerodd le ar grŵp llywio NPM. Mae ICVA fel aelod o'r NPM wedi cefnogi adolygiad strategol o'r NPM ac mae'n parhau i weithio gyda'r grŵp llywio, swyddogion ac aelodau ar lif gwaith canlyniadol.

Cyflawniadau'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd-

<u>Arwain, Cefnogi a Chynrychioli – adfer a dysgu wedi COVID- 19</u>

Mae'r egwyddor "gwneud dim niwed" a fabwysiadodd ICVA yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig yn 2020, wedi trosglwyddo i ffocws dwysach ar gydbwyso gofynion iechyd y cyhoedd â phwysigrwydd monitro hawliau dynol yn 2021/22. Elfen allweddol o'r broses hon o drosglwyddo oedd y newidiadau i arferion hylendid a chadw pellter cymdeithasol. Gan weithredu ar bryderon a godwyd gan ymwelwyr annibynnol, mae ICVA wedi rhannu canllawiau NPCC ynghylch offer diogelu personol a hylendid i staff, ymwelwyr, a'r rhai a gedwir yn y ddalfa. Mae sicrhau bod y ddalfa mor ddiogel â phosibl yn y flwyddyn newydd wedi bod yn flaenoriaeth i ICVA, ac mae rheolwyr cynlluniau ac ymwelwyr annibynnol wedi cael eu hannog i fonitro'r newidiadau i arferion hylendid a chadw pellter cymdeithasol yn ystod eu hymweliadau ac adolygiadau cofnodi yn y ddalfa.

Wrth i nifer o amrywiolion COVID-19 gynnig heriau o ran diogelu hawliau a hawlogaethau'r rhai a gedwir yn y ddalfa, parhaodd y cynlluniau i dynnu sylw at faterion a ddylanwadodd ar ganllawiau ICVA. Roedd y cynlluniau'n rhagweithiol wrth leisio eu pryderon ynghylch diffyg

cydymffurfio â'r Protocol Cyd-gyfweld Dros Dro sydd wedi llywodraethu cynrychiolaeth gyfreithiol mewn gorsafoedd heddlu. Roedd nifer o fersiynau o'r Protocol cyfweld ar y cyd, a gyda'r adborth a gafwyd gan y cynlluniau, sicrhawyd bod ICVA yn gallu rhoi canllawiau manwl o ran yr hyn i chwilio amdano a'i gofnodi. Yn ogystal, roedd yr adborth yn rhan o drafodaethau â phartneriaid ynghylch ffyrdd o wella'r protocol.

Yn ogystal â chanllawiau, mae ICVA wedi parhau i weithredu mesurau cymorth ar gyfer rheolwyr cynlluniau. Mae fforwm a llyfrgell yr aelodau wedi parhau i fod yn adnodd i swyddogion a chynlluniau ICVA rannu syniadau ac adnoddau â'i gilydd. Mae ICVA wedi defnyddio'r rhwydwaith hwn i gynnal cyfarfodydd ar gyfer cynlluniau sy'n ymweld â lleoliadau cadw terfysgwyr yn ogystal â chyfres o sesiynau rhithwir anffurfiol i gefnogi rheolwyr y cynlluniau i annog cymorth gan gymheiriaid a chynorthwyo rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau.

Yn ogystal â chynyddu'r defnydd o'r wefan a chyfarfodydd rhithwir, parhaodd ICVA i gael adborth rheolaidd gan gynlluniau drwy ddefnyddio arolwg misol. Defnyddiodd ICVA yr adborth i gynyddu ei swyddogaeth gynrychioli yn sylweddol mewn cyfarfodydd deufisol gyda'r Swyddfa Gartref, NPCC, NAAN, Cymdeithas y Cyfreithwyr ac eraill i sicrhau y gweithredir ar bryderon. O ganlyniad, parhaodd y cynlluniau i godi pryderon am hawliau a hawlogaethau'r rhai a gedwir yn y ddalfa a diwylliant ceisiadau, gan nodi bod y rhai a gedwir yn y ddalfa ond yn cael galwadau ffôn a chawodydd pan fyddent yn gwneud cais amdanynt yn hytrach na bod yr amwynderau hyn yn cael eu cynnig iddynt. Cododd ICVA y pryderon hyn gyda phartneriaid cenedlaethol a chanfu ymchwiliad gan NPCC fod y diwylliant hwn o wneud cais yn un eang. O ganlyniad, cafodd nodiadau atgoffa am hawlogaethau'r rhai a gedwir yn y ddalfa eu lledaenu gan NPCC i heddluoedd. Drwy godi hyn yn gynnar, roedd ymwelwyr annibynnol yn gallu sicrhau bod y problemau hyn yn cael eu trafod a'u datrys. Ar ben hynny, wrth i ystafelloedd remand ddechrau cynnal gwrandawiadau remand ar fideo, tynnodd yr ymwelwyr annibynnol sylw at y pwysau enfawr ar adnoddau staff a phryderon dilynol am les y rhai a gedwir yn y ddalfa ac arosiadau hir yn y ddalfa. Ar ben hynny, ymwelwyr annibynnol oedd y cyntaf i godi'r ffaith nad oedd y Protocol Cyd-gyfweld Dros Dro yn gweithio yn ôl y disgwyl. Cododd y cynlluniau bryderon nad oedd y rhai a gedwir yn y ddalfa yn cael cyfle i roi caniatâd gwybodus i gyngor cyfreithiol o bell a'u bod, yn hytrach, yn cael eu cyflwyno gyda'r penderfyniad wedi'i wneud ar eu rhan. Llwyddodd ICVA i godi'r pryderon hyn yn gynnar, a chawsant eu hymchwilio wedyn a'u cadarnhau'n ddiweddarach gan gyrff eraill gan gynnwys NPCC, HMICFRIS a'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol. Wrth godi'r mater yn gynnar, roedd yr ymwelwyr annibynnol yn gallu sicrhau bod y problemau hyn yn cael eu trafod a'u datrys.

<u>Cwblhau Cynllun Peilot Sylwedyddion Annibynnol Dalfeydd (ICOP)</u>

Roedd ICVA yn falch iawn o ledaenu gwaith arloesol Swydd Derby, Dyfed-Powys, Swydd Gaerloyw, Humberside, Swydd Gaerlŷr, a Swydd Nottingham gydag ardaloedd cynlluniau y tu allan i'r cynllun peilot Sylwedyddion Annibynnol Dalfeydd. Nod y cynllun peilot hwn, a gychwynnwyd yn Swydd Derby, oedd cryfhau rôl yr ymwelydd annibynnol drwy ychwanegu adolygiadau o gofnodion dalfeydd a gwella ymweliadau i gynnwys arsylwadau ehangach o ddalfeydd.

Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd ICVA am adolygiad o'r Cod Ymarfer a fydd yn galluogi ICOP i gael ei ehangu a'i gyflwyno. Fel rhan o'r cam casglu tystiolaeth, cynhaliodd ICVA gyfres o ymarferion ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol i ledaenu ymwybyddiaeth o'r cynllun a chanfod cefnogaeth i gyflwyno'r fethodoleg. Dangosodd yr adborth o'r ymarferion hyn gefnogaeth amodol i gyflwyno'r fethodoleg a pharodrwydd i archwilio sut y gellir diwygio ICOP i gyd-fynd â gwahanol gyd-destunau.

Er bod ICVA wedi mwynhau cefnogaeth rhanddeiliaid a gweision sifil, mae ICVA a'r Swyddfa Gartref wedi oedi cyn gofyn am adolygiad o'r Cod Ymarfer am y tro. Nid yw hyn wedi atal ICVA rhag bod yn eiriolwr dros ICOP, a bydd ICVA yn gofyn am adolygiad yn y dyfodol. Ymhellach, mae cynlluniau y tu hwnt i'r ardaloedd peilot wedi mabwysiadu methodoleg adolygu cofnodion dalfeydd fel mecanwaith diogelu ac arsylwi ychwanegol yn ystod y pandemig. Rydym yn rhagweld y bydd mabwysiadu adolygiadau o gofnodion dalfeydd, yn gynnar fel hyn, yn lleddfu'r broses o gyflwyno'r fethodoleg newydd ymhellach wrth i arfer gorau ICOP gael ei sefydlu.

<u>Fframwaith Sicrhau Ansawdd (QAF) 2</u>

Lansiwyd Fframwaith Sicrhau Ansawdd 1 ICVA ym mis Ebrill 2018 yn dilyn gwiriad iechyd ar gyfer cydymffurfio â'r Cod Ymarfer. Mae'r fframwaith yn galluogi cynlluniau i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol. Yn bwysicach fyth, mae'n gyfle i gydnabod a gwobrwyo cynlluniau ac ymgorffori safonau sy'n sicrhau gwelliant parhaus i ddalfeydd yr heddlu. Mae saith maes blaenoriaeth i'r fframwaith:

1. Recriwtio a hyfforddi,
2. Rheoli gwirfoddolwyr,
3. Cyfathrebu,
4. Dwyn yr heddluoedd i gyfrif,
5. Tryloywder a sicrwydd cyhoeddus,
6. Lles y rhai a gedwir yn y ddalfa, a
7. Buddsoddi mewn / cefnogi rheolwyr y cynlluniau.

Mae pedair lefel y gall cynlluniau eu cyrraedd ar y Fframwaith, sef Cydymffurfio â'r Cod, Arian, Aur a Phlatinwm gyda chyfres o feini prawf y mae'n rhaid i gynlluniau ddangos tystiolaeth ohonynt i ennill y wobr. Mae gan bob lefel feini prawf ychwanegol i'r un flaenorol, gyda chanlyniadau mwy uchelgeisiol ar gyfer arfer da i gynlluniau eu cyrraedd.

Roedd disgwyl i Fframwaith 2 gael ei lansio ym mis Ebrill 2020 ond cafodd ei ohirio oherwydd y pandemig. Daeth llawer o gynlluniau i ben neu cawsant eu gohirio, gan orfod addasu i ddulliau amgen o fonitro dalfeydd yr heddlu. Penderfynodd y Bwrdd a rheolwyr y cynlluniau y byddai'n annheg ei gyflwyno ar y pryd a chytunodd ICVA i ailedrych ar ei lansio yn ddiweddarach.

Roedd 2021/2022 yn cynnwys ystod o ddigwyddiadau ymgynghori gyda chynlluniau, gan gynnwys cynhadledd rheolwyr cynlluniau, ac eitem ymgynghori yng nghyfarfod Fforwm Cenedlaethol yr Arbenigwyr (NEF) ar gyfer cynrychiolwyr rhanbarthol y cynlluniau.

O ganlyniad i'r ymgynghoriadau hyn, cytunodd bwrdd ICVA y byddai'r Fframwaith yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2022, gyda'r diwygiadau canlynol i adlewyrchu adborth gan reolwyr cynlluniau:

- Byddai ICVA yn dileu asesiad gan gymheiriaid ar gyfer lefelau arian ac aur, i'w ddisodli gan gymeradwyaeth rheolwr llinell a samplu ar hap gan swyddog ICVA.
- Cytunodd ICVA i ymestyn y ffenestr asesu i gyfnod o 18 mis, sy'n golygu bod yn rhaid cwblhau asesiadau a'u dychwelyd i ICVA erbyn mis Hydref 2023.
- Diwygiodd ICVA rai meini prawf mewn ymateb i adborth gan gynlluniau.
- Ymrwymodd ICVA i gynnal sesiynau galw heibio chwarterol, ar-lein, ar gyfer cynlluniau i gefnogi'r Fframwaith.
- Ymrwymodd ICVA i ysgrifennu at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'w hysbysu am Fframwaith 2 a chasglu cefnogaeth y swyddfa i reolwyr cynlluniau.
- Cytunwyd y bydd angen i gynlluniau ailasesu, ac y bydd hen wobrau a logos yn eu lle tan fis Hydref 2023 ond ni fyddant bellach yn ddilys ar ôl y dyddiad hwn.
- Bydd swyddogion ICVA yn parhau i gynnal asesiadau o gynlluniau platinwm (yn dibynnu ar nifer y cynlluniau, efallai y bydd angen cefnogaeth gan aelodau bwrdd rheolwyr cynllun arbenigol).

Lluniodd ICVA ystod o ddogfennau ategol yn ystod 2021/2022 i baratoi ar gyfer y lansiad, gan gynnwys:

- Cwestiynau Cyffredin y Fframwaith
- Dogfen 'Sut i' y Fframwaith.
- Adnodd fideo yn esbonio'r Cwestiynau Cyffredin a'r broses asesu.
- Siartiau llif i ddangos y broses asesu.

Caiff Fframwaith 2 ei lansio ar yr 1 Ebrill 2022, gyda chyfres o sesiynau Holi ac Ateb a chefnogaeth i gynlluniau i ennill eu gwobrau.

Arwain – Ymateb i adolygiad y Gymdeithas Cyfiawnder Troseddol (CJA) o hil a rhyw ym maes ymweliadau annibynnol â'r ddalfa
Gyda chydweithrediad agos ICVA, cyhoeddodd y Gymdeithas Cyfiawnder Troseddol (CJA) ei hadroddiad ar anghydraddoldeb o ran hil a'r rhywiau yn nalfeydd yr heddlu.

Mae *'Just visiting? Exploring the effectiveness of Independent Custody Visitors at monitoring race and gender equality in police custody'*, yn archwilio sut y mae ymwelwyr â'r ddalfa yn canfod ac yn herio unrhyw wahaniaethu (yn uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn erbyn menywod a'r rhai o leiafrifoedd ethnig a'r heriau y mae ymwelwyr â dalfeydd yn eu hwynebu wrth wneud hyn.

Mae'r adroddiad wedi nodi lle mae ymwelwyr â dalfeydd wedi gwella rhai agweddau ar les menywod a lleiafrifoedd ethnig yn nalfa'r heddlu a sut y maent yn cael eu trin, yn ogystal â nodi rhai heriau a rhwystrau rhag eu heffeithiolrwydd. Mewn ymateb i'r adroddiad, mae ICVA wedi creu cynllun gweithredu gwrth-hiliol sy'n crisialu'r argymhellion ac yn dangos ei hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb neu wahaniaethu o unrhyw fath.

Cefnogi Cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd – arfogi a grymuso rheolwyr cynlluniau

Yn ystod 2021/2022 mae ICVA wedi gweithio gyda datblygwyr i greu tudalen Adnoddau Ymwelwyr Annibynnol ar brif wefan ICVA. Ymateb Rheolwyr y Cynlluniau oedd eu bod wedi rhoi croeso mawr i gam ICVA ar ddechrau'r pandemig i gynnig hyfforddiant ac adnoddau i ymwelwyr annibynnol y gallent ei gael yn eu cartrefi, a heb fod angen darpariaeth/hwyluso gan Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Penderfynodd ICVA y gallai mynediad at hyn i wirfoddolwyr gael ei wella drwy gynnal yr hyfforddiant ar ofod cyhoeddus, hygyrch i bawb.

Cyflwynwyd tudalen adnoddau newydd yr ymarferwyr annibynnol (https://icva.org.uk/icv-resources) ym mis Medi a gall ymwelwyr annibynnol gael gafael yn uniongyrchol ar adnoddau priodol.

Mae'r dudalen wedi ei rhannu'n dair adran – Hyfforddiant byr i ymwelwyr annibynnol, briffiau a chanllawiau ac adnoddau cymorth. Mae ICVA wedi adolygu pob dogfen ac wedi sicrhau bod pob un yn addas i'r gofod cyhoeddus, wedi llwytho'r dudalen, ac wedi cynhyrchu adnoddau ychwanegol newydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, roedd gan dudalen y safle 15 fideo hyfforddi 'yn syth i Ymwelwyr Annibynnol' ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys llu o hyfforddiant ar blant yn y nalfeydd yr heddlu, urddas y rhai a gedwir yn y ddalfa, menywod yn y ddalfa, niwroamrywiaeth a mwy. Mae briffs ar gyfer ymwelwyr annibynnol yn cynnwys llinellau cyffuriau, chwilio plant drwy ddiosg eu dillad, darpariaeth oedolyn priodol, masnachu mewn pobl a llawer mwy.

Mae ICVA wedi cael adborth gwych am y dudalen newydd gan gynlluniau a'u hymwelwyr annibynnol a bydd yn parhau i ychwanegu adnoddau wrth iddynt gael eu datblygu, gan eu hyrwyddo trwy gylchlythyrau wythnosol.

Cynrychioli – gwybodaeth i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
Yn 21/22, cyflwynodd ICVA gyfres o sesiynau briffio rhithwir yn ymwneud â'n blaenoriaethau. Roedd y sesiynau briffio hyn yn cynnwys sesiwn ddiweddaru ymwybyddiaeth gyffredinol ar ICOP. Gyda chyfyngiadau Covid yn llacio yn ystod y flwyddyn, aeth ICVA i nifer o gyfarfodydd a chynadleddau cynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn bersonol.

Cynrychioli – rhannu canfyddiadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd â chyrff cenedlaethol.
Y tu allan i COVID-19, parhaodd ICVA i gynrychioli cynlluniau drwy eu sianeli arferol. Mae ICVA yn aelod gweithgar o'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol ac yn Cadeirio ei Is-grŵp Plismona. Mae ICVA yn aelod gweithgar o'r Fforwm Dalfeydd Cenedlaethol ac wedi cynrychioli canfyddiadau ar siwtiau gwrth-rwyg i'w harweinydd i ystyried eu diwygio. Mae ICVA yn mynd i Grŵp Strategaeth PACE lle mae wedi cyflwyno canfyddiadau ymwelwyr annibynnol drwy gydol y flwyddyn. Mae ICVA hefyd yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd

Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa, lle mae prosiect ICOP wedi'i gyflwyno fel modd i ddeall a oes anghymesuredd o ran y ffordd y caiff pobl eu trin yn nalfeydd yr heddlu. Mae ICVA yn cwrdd yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Swyddfa Gartref ac arolygiaethau er mwyn rhannu adborth ymwelwyr annibynnol a llywio gwaith ei gilydd.

Blaenoriaethau mewnol

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr ICVA yn cynnal gwaith rheolaidd i gadw'n addas i'r diben. Mae ICVA yn adolygu ei gofynion cyfreithiol, sefyllfa gyllidol, a gofynion strategol yn rheolaidd.

Adolygodd ICVA ei threfniadau llywodraethu yn dilyn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a phenododd Brif Weithredwr newydd yn 2021.

Ashley Bertie, Prif Swyddog Gweithredol ICVA

Canfyddiadau ymwelwyr annibynnol ar gyflwr dalfeydd yr heddlu 2021 - 2022

Yn 21/22, roedd dalfeydd yr heddlu'n parhau i fod o dan bwysau sylweddol, wrth i effeithiau Covid-19 a mesurau iechyd cyhoeddus dilynol ddod i'r amlwg. Fel gwasanaethau hanfodol eraill, roedd ystafelloedd dalfeydd yn gorfod ymdopi â phrinder staff, risg o haint, a gweithredu rheoliadau cadw pellter cymdeithasol. O ganlyniad, roedd llawer o'r materion y tynnwyd sylw atynt gan ymwelwyr annibynnol yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn mewn ystafelloedd dalfeydd wrth iddynt barhau i ymateb i'r pandemig. Rhoddodd cynlluniau ymwelwyr annibynnol adborth annibynnol gwerthfawr dros y cyfnod hwn, gan ddarparu dros 250 o adroddiadau adborth i ICVA yn ogystal ag adroddiadau arferol.

Mynediad at gyfreithwyr

Roedd caniatâd gwybodus gan y rhai a gedwir yn y ddalfa yn unol â phrotocol Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r NPCC yn parhau i fod yn fater a oedd yn cael ei godi gan gynlluniau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Nododd llawer o gynlluniau fod staff dalfeydd, ar y cyfan, yn sicrhau bod y rhai a gedwir yn y ddalfa yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am gyngor cyfreithiol wyneb yn wyneb. Ond eto, er gwaethaf y ffaith bod y darlun yn gwella wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, parhaodd y cynlluniau i adrodd eu bod yn bryderus o hyd ynghylch gallu'r rhai a gedwir yn y ddalfa roi caniatâd cwbl wybodus i gyngor cyfreithiol o bell. Gan ddefnyddio'r adborth gan ymwelwyr annibynnol, cododd ICVA y mater hwn gyda'r Swyddfa Gartref drwy'r Grŵp Partneriaid Gweithredol (dan arweiniad y Swyddfa Gartref), a barhaodd i gwrdd yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

Un nodwedd allweddol o adroddiadau cynnar oedd prinder staff. Wrth i staff gael cyngor i hunanynysu, nododd y cynlluniau brinder ystafelloedd dalfeydd. Mae hyn wedi gwella

rhywfaint drwy'r flwyddyn, ond parhaodd ICVA i gael adroddiadau bod prinder staff a phryderon am wytnwch yn her o hyd.

Cododd rhai cynlluniau bryderon am hawlogaethau'r rhai a gedwir yn y ddalfa, gan dynnu sylw'n arbennig at adegau pan nad oedd pobl yn cael cynnig cyfleusterau golchi wrth gyrraedd neu yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa. Maent wedi rhoi adborth hefyd ar bryderon ychwanegol, gyda rhai yn nodi nad oedd mynediad digonol at gyfleusterau hylendid ar gael i rai, goruchwylio plant sy'n cael eu cadw y ddalfa a phryderon nad oes gan fenywod a gedwir yn y ddalfa fynediad at staff benywaidd. Mae ICVA wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn, ac wedi rhoi adborth diweddaraf i bartneriaid, sydd wedi llywio eu hymateb i sicrhau bod hawliau'r rhai a gdewir yn y ddalfa a'r camau i'w diogelu yn cael eu cynnal.

Ystâd yr Heddlu

Cyflwynodd yr ymwelwyr annibynnol bryderon hefyd am ystâd yr heddlu a'r heriau o ddilyn canllawiau iechyd cyhoeddus i gadw pellter cymdeithasol. Aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn ystod y flwyddyn wrth i ddalfeydd addasu i ofynion iechyd cyhoeddus newydd. Cyfeiriodd rhai cynlluniau at fesurau amddiffynnol, fel cyflwyno sgriniau persbecs, ac roedd ystafelloedd dalfeydd yn gweithredu mesurau fel marciau pellteroedd diogel ar y llawr ac addasu ystafelloedd cyfweld. Cyfeiriodd y cynlluniau hefyd at ffyrdd newydd o weithio, megis blaenoriaethu'r rhai a gedwir yn y ddalfa i wirio am symptomau COVID pan fyddant yn cyrraedd a threfnu mannau hylendid i'w defnyddio wrth i bobl gyrraedd y ddalfa.

Cyfiawnder drwy gyfrwng fideo

Cyflwynodd nifer fawr o ddalfeydd hefyd 'gyfiawnder drwy gyfrwng fideo' (VEJ) lle mae'r rhai a gdewir yn y ddalfa yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau remand drwy fideo o ddalfa'r heddlu. Cyflwynwyd hyn, unwaith eto, fel mesur i sicrhau y gallai'r ddalfa barhau i weithredu drwy gydol y pandemig. Er i rai cynlluniau adrodd bod hyn wedi bod yn llwyddiannus, cafwyd pryderon eang ynglŷn â hyn. Mae pobl yn treulio llawer mwy o amser yn nalfa'r heddlu tra byddant yn aros i fynd i'r llys, mynd drwy'r broses ac mewn rhai achosion yn aros i gael eu hebrwng i'r carchar. Mae'r cyfnod ychwanegol o aros yn y ddalfa yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar staff a gwasanaethau cymorth. Dywedodd y cynlluniau fod hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar ofal y rhai a gedwir yn y ddalfa yn ogystal â phryderon am eu lles. Fodd bynnag, wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, daeth cyfiawnder drwy gyfrwng fideo yn llai o broblem wrth i lawer o ardaloedd roi'r gorau i'w ddefnyddio neu ei gyfyngu i'r rhai a fyddai'n profi'n bositif am COVID19 neu'n dangos symptomau.

Oedolion Priodol

Mae Oedolion Priodol (AAs) yn amddiffyniad gwerthfawr i blant ac oedolion bregus, gan eu helpu i ddeall proses y ddalfa ac ymgysylltu â hi. Pan na fydd rhywun yn gallu cael gafael ar ei oedolyn priodol ei hun, megis rhiant, bydd yr heddlu'n gwneud cais am un drwy gynllun lleol. Parhaodd oedolion priodol i fynd i ddalfa'r heddlu drwy gydol y pandemig.

Yn gynnar yn ystod y pandemig, dywedodd cynlluniau ymwelwyr annibynnol fod nifer yr oedolion priodol a oedd yn gallu mynd i ddalfa'r heddlu wedi gostwng. Soniodd nifer o

ardaloedd am orfod aros yn hir cyn cael gafael ar oedolyn priodol. Newidiwyd rhai cynlluniau oedolion priodol drwy addasu'r gwasanaethau a ddarparwyd ganddynt. Fel arfer, byddai oedolion priodol yn cynorthwyo'r rhai yn y ddalfa yn bersonol i ddeall eu hawliau a'u hawlogaethau, cafodd hyn ei wneud o bell mewn rhai ardaloedd.

Cafodd y prinder oedolion priodol ar y cychwyn effaith ar y rhai a gadwyd yn y ddalfa, a allai, wedyn, wynebu amseroedd cadw hirach ac na fyddant yn elwa o gyswllt wyneb yn wyneb ag oedolyn priodol wrth ddeall eu hawliau a'u hawlogaethau.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, fe wnaeth yr adroddiadau o oedi o ran cael gafael ar oedolyn priodol leihau'n sylweddol.

TACT

Mae ymwelwyr annibynnol yn ymweld â'r rhai sydd yn y ddalfa mewn cysylltiad â therfysgaeth. Mae gan y Ddeddf Terfysgaeth (y cyfeirir ati'n gyffredin fel TACT) drefniadau gwahanol gan fod yn rhaid rhybuddio ymwelwyr annibynnol pan fydd achos o TACT yn digwydd a byddant yn ymweld yn amlach. Mae ymwelwyr annibynnol sy'n ymweld â TACT hefyd yn adrodd i'r Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL), Jonathan Hall, sy'n cynnal goruchwyliaeth o gadw mewn cysylltiad â therfysgaeth.

Roedd cynlluniau â TACT yn gweithredu polisi ymweld o bell fel mater o flaenoriaeth a sicrhau bod ymwelwyr annibynnol yn siarad â'r rhai a gedwir yn y ddalfa, naill ai dros y ffôn neu drwy fideo-gynadledda. Cynhaliodd ICVA gyfarfodydd cymorth ychwanegol gyda chynlluniau a'r Adolygydd Annibynnol dros y pandemig er mwyn sicrhau bod yr oruchwyliaeth annibynnol hanfodol hon yn parhau.

Ar y cyfan, mae dalfeydd wedi ymdopi yn ystod y pandemig, gyda nifer o faterion sylweddol yn codi. Mae NPCC a sefydliadau cenedlaethol eraill wedi bod yn rhagweithiol wrth ymateb i adborth a godwyd gan ymwelwyr annibynnol. Fodd bynnag, mae materion fel cael gafael ar gyfreithwyr wedi parhau i fod yn anodd eu datrys ac wedi parhau tan yn gynnar yn 2021/22.

Gofynion adrodd blynyddol

Dibenion a llywodraethu
Adolygodd ICVA ei Herthyglau Cymdeithasu, gan eu diwygio ym mis **Rhagfyr 2021.** Mae Erthyglau ICVA ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.

Cyfyngir amcanion y Cwmni yn benodol, ac ym mhob achos dim ond er budd y cyhoedd i:

- Hyrwyddo hawliau dynol ymhlith personau sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill drwy ddatblygu a hyrwyddo'r ddarpariaeth effeithlon ac effeithiol o ymweld â'r ddalfa;
- Hyrwyddo addysg mewn materion cyffredinol a materion sy'n ymwneud â hawliau, hawlogaethau, iechyd a llesiant, a chyflwr cyfleusterau, personau a gaiff eu cadw yn y ddalfa yn y Deyrnas Unedig a mannau eraill; a

- Hybu safonau moesegol o ran ymddygiad a chydymffurfio â'r gyfraith ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat sy'n gyfrifol am les personau a gedwir yn y ddalfa yn y Deyrnas Unedig a mannau eraill.

Llywodraethir ICVA gan ei Herthyglau Cymdeithasu. Mae ICVA yn sefydliad dielw ac mae'n Gwmni Cyfyngedig trwy Warant.

Bwrdd Cyfarwyddwyr ICVA sy'n rheoli cyfrifoldebau cyfreithiol, cyllidol, a strategol y sefydliad. Martyn Underhill sy'n cadeirio'r Bwrdd ac yn gweithredu fel rheolwr llinell i'r Prif Weithredwr sydd, yn ei dro, yn rheoli staff pellach.

Mae aelodaeth Fforwm Cenedlaethol yr Arbenigwyr (NEF) yn gorgyffwrdd â'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ac yn dwyn ynghyd y rheolwyr cynlluniau ac ymarferwyr annibynnol i rannu ymarfer, dysgu a chynnal prosiectau ar y cyd.

Mae Fforwm Cenedlaethol yr Arbenigwyr (NEF) ICVA yn enwebu 'aelodau-gyfarwyddwyr' i eistedd ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Caiff yr aelodau hyn eu hategu gan 'gyfarwyddwyr allanol' a gaiff eu recriwtio i ddarparu gwybodaeth a galluoedd arbenigol i'r sefydliad. Rhaid i aelodau-gyfarwyddwyr bob amser gynnwys y rhan fwyaf o Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Cyfarwyddwyr sy'n penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Cyfarwyddwyr a staff
Mae'r bobl ganlynol wedi gweithredu fel cyfarwyddwyr ar gyfer ICVA ar draws 2021/22:

- Katie Beaumont
- Erika Dallinger
- Nicholas Hardwick
- Elizabeth Kelly
- Lucy McKay
- Joanne Nicholls, Ysgrifennydd y Cwmni
- Natasha Plummer, Is-gadeirydd
- Elise Pout
- Kirsty Scott
- Elizabeth Shenton
- Martyn Underhill, Cadeirydd
- Rachael Waldron

Mae'r bobl ganlynol wedi gweithio i ICVA yn 2021/22:

- Katie Kempen, Prif Swyddog Gweithredol
- Ashley Bertie, Prif Swyddog Gweithredol (dechreuodd ym mis Medi 2021)
- Sherry Ralph, Prif Swyddog Gweithredu
- John Eagles, CPFA, Trysorydd Anrhydeddus

Rhagor o wybodaeth

www.icva.org.uk

Trydar: @custodyvisiting @projectICVA

Adolygiad Ariannol

Gweler yr adroddiad ariannol ychwanegol, sy'n amlinellu sefyllfa ariannol ICVA ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae gan ICVA tua chwech i naw mis o gyllid wrth gefn, y mae'n ystyried sy'n briodol oherwydd ei ddibyniaeth ar un cyllidwr ar gyfer y mwyafrif o'i chyllid.

Mae ICVA yn bwriadu parhau fel busnes gweithredol ar hyd 2021/22, tra'n nodi ei bod yn ddibynnol ar y Swyddfa Gartref a chefnogaeth barhaus ei haelodau.

Incwm disgwyliedig	
Grant	
Grant y Swyddfa Gartref	£125,000.00
Tanysgrifiadau	
Aelodau PACE (£1,000 fesul cynllun, 43 aelod)	£43,000.00
Aelodau nad ydynt yn aelodau PACE (£750 yr aelod, 3 aelod)	£2,250.00
CYFANSWM INCWM RHAGAMCANEDIG	**£170,250.00**

Gwariant	
Costau staff	
Cyflogau ac ar-gostau (cyflog, cyfraniad YG cyflogwr) Prif Swyddog Gweithredol	£75,000.00
Cyflogau ac ar gostau (cyflog, cyfraniad YG cyflogwr) Prif Swyddog Gweithredu	£50,500.00
Milltiroedd a lwfansau (yn cynnwys trenau, gwestai, ac ati)	£3,250.00
Asedau a hyfforddiant	£1,500.00
Pensiwn (5% o'r cyflog a ganiateir)	£5,650.00
	£135,900.00
Costau busnes	
Cyfathrebu (bwletinau, adroddiad blynyddol, cyhoeddiadau ayyb)	£500.00
Bwrdd Rheoli (adeiladau APCC, rhywfaint ar gyfer teithio)	£1,250.00
Aelodaeth i sefydliadau cefnogi, e.e. NCVO	£400.00
Gwefan (llwytho a cynnal a chadw, golygyddol newyddion, monitro a chyfrineiriau)	£3,500.00
Datblygu Sefydliadol	£5,000.00
	£10,650.00
Costau swyddfa	
Ffonau symudol	£1,000.00
Storio	£1,700.00
Blwch SP	£360.00
Postio	£250.00
Llungopïo / argraffu	£100.00
Deunydd ysgrifennu	£100.00
	£3,510.00
Costau cyllid	
Yswiriant	£440.00
Taliadau banc	£250.00
Cyngor cyfrifeg (cyflogres, TAW, Xero)	£2,400.00
Archwiliad llawn	£3,500.00
	£6,590.00
Costau eraill	
Ymgysylltu rhanbarthol	£2,000.00
Cyllideb y Prosiect	£10,600.00
Cyfraniad NPM	£1,000.00
	£13,600.00

CYFANSWM GWARIANT RHAGAMCANOL 2021/22	**£170,250.00**

Cyllideb 2021-22